



CYNHADLEDD DYSGU AC ADDYSGU FLYNYDDOL #SUSALT 17

GALWAD AM GYNIION

Cynhelir 9^{ed} Cynhadledd Flynyddol Rhagoriaeth mewn Dysgu ac Addysgu sef **#SUSALT17**, ar y 5^{ed} **Gorffennaf 2017** yng Nghanolfan Gelfyddydau Taliesin, Campws Singleton (9am – 5pm)

Gwahodda Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe gynigion ar gyfer sesiynau cynhadledd i arddangos arfer da ac effeithiol mewn dysgu, addysgu ac asesu ledled y Brifysgol dan thema'r gynhadledd sef '**Cyrraedd Rhagoriaeth Addysgu**'. Cynigia'r gynhadledd gyfle i gydweithwyr ddod at ei gilydd fel cymuned i rannu arfer da a syniadau. Boed eich bod ag enghraifft o brosiect ymchwil addysgeg, adborth gan ymyriad addysgu newydd neu arloesedd mewn dysgu ac addysgu y teimlwch allai elwa staff a myfyrwyr eraill ledled y sefydliad, ystyriwch rannu'r rhain. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion yw'r **13^{eg} Ebrill 2017**.

Rydym yn gwahodd cynigion am sgysiau sydyn, cyflwyniadau, poster a gweithdai. Mae angen i'ch cynigion ddangos yn eglur sut fydd eich sesiwn yn ymdrin â thema'r gynhadledd sef '**Ymgynraedd at Ragoriaeth Addysgu**'. Cadwch mewn cof y bydd y cynnig a gyflwynwch nawr, os derbynir, yn cael ei ddefnyddio i gael ei gynnwys yn rhaglen y gynhadledd a dyma'r prif ddull y bydd cyfranogwyr yn dewis pa sesiynau i'w mynychu.

Fformatau Sesiwn a Chyflwyno

Gallwch gyflwyno cynigion ar gyfer un o'r mathau sesiwn canlynol: Efallai y bydd modd derbyn fformatau eraill hefyd. Cysylltwch â Debbie Baff (Deborah.baff@swansea.ac.uk [<mailto:Deborah.baff@swansea.ac.uk>](mailto:Deborah.baff@swansea.ac.uk)) i drafod eich syniad.

	Math	Amser	Nodiadau
	SGYRSIAU SYDYN	5 mun	Nifer Geiriau Crynodeb 150 Gair Nifer Geiriau Amlinelliad 250 Gair DS Dim Holi ac Ateb
	CYFLWYNIAD	20 mun	Nifer Geiriau Crynodeb 150 Gair Nifer Geiriau Amlinelliad 500 Gair DS cyflwyniad 15 munud gyda Sesiwn Holi ac Ateb am 5 munud
	POSTER	Papur a PDF	Nifer Geiriau Crynodeb 150 Gair Nifer Geiriau Amlinelliad 250 Gair DS 3 Gorffennaf 2017 yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno
	GWEITHDY	60 mun	Nifer Geiriau Crynodeb 150 Gair Nifer Geiriau Amlinelliad 500 Gair DS Rhaid bod mewn fformat rhyngweithiol,

		arloesol a chreadigol e.e. hacio, gwneud, rhannu, chwarae gemau ayyb.
--	--	---

Canllawiau cyflwyno

Crynodeb

Uchafswm o 150 o eiriau ar gyfer holl grynodedbau.

Dylai'ch crynodeb osod amcanion a nodau'r sesiwn. Defnyddi ar gyfer cyhoeddi yn y rhaglen gynhadledd ar-lein.

Amlinelliad

Sgyrsiau Sydyn (250 Uchafswm Geiriau)

Cyflwyniadau (500 Uchafswm Geiriau)

Posterï (250 Uchafswm Geiriau)

Gweithdai (500 Uchafswm Geiriau)

Dylech roi manylion eich sesiwn gan gynnwys sut caiff ei chynnal, sut wnewch ymgysylltu â chyfranogwyr, a sut mae'r cynnig yn cysylltu â thema gyffredinol y gynhadledd. Dylech hefyd gynnwys gwybodaeth ar y rheswm y bydd gan gynrychiolwyr ddiddordeb yn eich sesiwn. Sut all cynrychiolwyr weithredu'r canfyddiadau / menter yn eu harfer eu hunain? Sut mae eich sesiwn yn arddangos dull arloesol ayyb? Defnyddir y wybodaeth hon i ddewis a rhaglennu sesiynau cynhadledd.

Allweddeiriau

Rhowch hyd at **bum** allweddair, wedi'u rhannu gan gomas, sy'n cynorthwyo i ddiffinio cynnwys sesiwn i'w ddefnyddio ar wefan y gynhadledd ac yn y rhaglen. (Ni chynhwysir hyn yn y nifer geiriau)

Negeseuon allweddol

Dangoswch rhwng tair a phum neges allweddol yr aiff cynrychiolwyr gyda hwy o'ch sesiwn (ni chynhwysir hyn yn y nifer geiriau)

Meini Prawf Cynnig

Yn amlwg, dylai holl gynigion drin prif thema'r gynhadledd. Dewisir cynigion yn erbyn y meini prawf canlynol. Bydd pwyslais penodol ar ba mor arloesol a rhyngweithiol fydd eich sesiwn:

- A yw'r teitl a'r crynodeb yn disgrifio'r sesiwn yn glir?
- A yw'r sesiwn hon wedi'i halinio yn eglur â thema'r gynhadledd?
- A yw'r sesiwn arfaethedig yn amserol a phriodol?
- A yw'r sesiwn yn arloesol / wedi'i chynllunio i fod yn rhyngweithiol? A yw hi'n glir sut fydd hyn yn ymgysylltu â'r gynulleidfa?
- Beth yw canlyniadau'r sesiwn? A ydynt yn briodol i'r gynhadledd?
- A wnaiff y sesiwn hon gyfrannu'n bositif at y gynhadledd ac at ddysgu ac addysgu yn y Brifysgol?
- A yw'r math o fformat a sesiwn a ddewisir y mwyaf priodol i bwnc a fformat y cyflwyniad?
- A yw'r cynnig yn rhannu data ymchwil neu arfer dysgu, addysgu ac asesu yn ystod y sesiwn?

- I. A yw'r cynnig hwn yn cynnwys y 5 elfen ganlynol i gyd: arloesedd, atgynhyrchu, effaith, tystiolaeth a sgôp?

Cymhwysedd

Mae'r alwad am gynigion yn agored i holl staff gan gynnwys y rhai hynny sy'n gweithio ym mhob maes cymorth Dysgu ac Addysgu.

Gwybodaeth Ddefnyddiol a Dyddiadau Allweddol

Gwefan y Gynhadledd	https://saltconference2017.wordpress.com/
Dolen Ffurflen Gais y Cynnig	https://goo.gl/forms/q86J5PMzumBlaXOZ2
Dyddiad Cau Cyflwyniad	13 Ebrill 2017
Proses Adolygu	21 Ebrill 2017 – 12 Mai 2017
Cyfarfod Panel	16 Mai 2017
Hysbysu Canlyniadau	23 Mai 2017
Archebu yn Agor (drwy <i>Eventbrite</i>)	23 Mai 2017
Dyddiad Cau Archebu Cyflwynydd	9 Mehefin 2017
Holl Ddyddiadau Cau Archebu Cynrychiolwyr	3 Gorffennaf 2017

Ymholiadau

Os hoffech drafod eich cynnig cyn cyflwyno, cysylltwch â Debbie Baff, Uwch Ddatblygwr Academaidd SALT deborah.baff@swansea.ac.uk Ffôn 01792 513166

